

## DAVIES, EVAN (1842 - 1919), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, a llenor

**Enw:** Evan Davies

**Dyddiad geni:** 1842

**Dyddiad marw:** 1919

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, a llenor

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu

**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn nechrau 1842, yn Aberangell; aeth i weithio ar y tir yn 10 oed, ond yn 17 oed aeth yn chwarelwr. Yr oedd ganddo ddi-ddordeb byw iawn yn hanes a llenyddiaeth ffiniau Meirion a Maldwyn er yn llanc. Dechreuodd bregethu yn 1865; aeth i Goleg y Bala yn 1868; ac yn 1873 ordeiniwyd ef yn weinidog ar Langynog. Symudodd i Lanarmon Dyffryn Ceiriog, fis Tachwedd 1875, ac oddi yno yn 1879 i Drefriw, lle y bu weddill ei oes. Bu'n llywydd cymdeithasfa'r Gogledd yn 1914; ond ei brif nodwedd oedd ei ddiwydrwydd fel llenor. Am fwy na 30 mlynedd, golygodd *Y Lladmerydd* gyda **John Morgan Jones** o Gaerdydd. Ef a olygodd weithiau '**Tafolog**' (Richard Davies) ac a sgrifennodd gofiannau Dafydd Dafis, Cywarch, a **Joseph Thomas**, Carno, heblaw nifer o fân lyfrau crefyddol a rhyw gymaint o brydyddiaeth. Bu farw 10 Ionawr 1919, yn 77 oed.

### Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

*Blwyddiadur y Methodistiaid Calфинаidd*, 1920

### Gweithiau

Evan Davies, *Cofiant a phregethau y diweddar Barch. William Roberts, Llanrwst*(Dolgellau 1896)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733014

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government